



Youth Justice Board
Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid

Ffurflen Ymadael Person Ifanc

*(I'w llenwi gan y Tîm Troseddwyr Ifanc a'r
Person Ifanc yn dilyn remand/dedfryd
mewn sefydliad diogel)*

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Cefndir	4
Cyfrinachedd	5
Llenwi'r ffurflen	6
Proses Uwchgyfeirio	7
Rolau a Chyfrifoldebau	8
Rheolwr Achos y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc a'r Ddalfa	8
Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (Monitorau/Rheolwyr Contractau – Rolau Goruchwyllo a Chymorth) mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc	9
Proses Gwyno Timau Troseddwyr Ifanc	9

© Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr 2016

Mae'r deunydd yn y ddogfen hon yn destun diogelwch hawlfraint dan Gyfraith Hawlfraint y DU, oni nodir fel arall. Rhaid i unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n dymuno defnyddio deunyddiau neu gynhyrchion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid at ddibenion masnachol wneud cais ysgrifenedig i'r Bwrdd yn ipr@yjb.gsi.gov.uk am drwydded benodol i wneud hynny.

Canllawiau ar lenwi'r Ffurflen Ymadael â'r Ddalfa f2.0. (NR Medi 2016)

Cyflwyniad

Dylid darllen y Canllawiau hyn ar y cyd â'r canllawiau ar reoli achosion yn <https://www.gov.uk/government/publications/custody-and-resettlement/custody-and-resettlement-section-7-case-management-guidance> (Saesneg yn unig) a

<https://www.gov.uk/government/publications/national-standards-for-youth-justice-services> (Saesneg yn unig)

Nod y ffurflen Ymadael â'r Ddalfa yw amlygu, cefnogi ac/neu wella:

- profiadau pobl ifanc o'u dedfryd a'u rhaglen ailsefydlu
- anghenion pobl ifanc yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa, ac yn rhan o'u rhaglen ailsefydlu
- diogelwch a lles person ifanc
- atebolrwydd yr holl randdeiliaid o ran sicrhau bod y broses Gwyno a Digwyddiadau yn deg, yn agored ac yn dryloyw i bawb dan sylw
- cynllunio ar gyfer y dyfodol ac adolygu gwasanaethau diogel.

Dylai'r ffurflen ymadael ychwanegu at yr asesiadau a wnaed drwy gyfarfodydd cynllunio rheolaidd â'r person ifanc yn ystod ei gyfnod yn y ddalfa a chyn iddo gael ei ryddhau, yn rhan o'r broses ailsefydlu yng Nghymru a Lloegr.

Caiff dogfennau a lenwyd eu trin yn gyfrinachol. Fodd bynnag, yn yr un modd ag unrhyw bryder bosibl am ddiogelwch, os caiff materion eu codi, dylid ymdrin â hwy'n syth, ar y cyd â chydweithwyr yn y sefydliad diogel ac yn unol â'r gweithdrefnau atgyfeirio/ymchwilio lleol priodol (gweler y dolenni isod).

Cofiwch beidio â chynnwys enwau pobl ifanc wrth gyflwyno ffurflenni i gyfeiriad e-bost adborth y ddalfa. Mae hyn yn torri rheolau Diogelu Data.

I gael rhagor o wybodaeth neu gyngor ar lenwi'r ffurflen, anfonwch e-bost i custodyfeedbackform@yjb.gsi.gov.uk

Cefndir

Lluniwyd y *Ffurflen Ymadael â'r Ddalfa* gan ystyried adborth gan ymarferwyr a phobl ifanc, er mwyn casglu'n drefnus farn pobl ifanc am eu profiad o'r ddalfa, a hynny'n syth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Mae'r ffurflenni a dreialwyd hyd yma wedi dangos bod pobl ifanc yn teimlo'n fwy cyfforddus yn rhoi adborth ar brofiadau pan nad ydynt yn yr amgylchedd dan sylw. Mae defnyddwyr hefyd wedi nodi'n gadarnhaol y strwythur ychwanegol y mae'r ddogfen hon yn ei ychwanegu at sesiynau rhyddhau cychwynnol.

Bydd llenwi'r ddogfen strwythuredig fer hon yn galluogi'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc, y sefydliad diogel a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid i ymateb yn syth i faterion sy'n codi ar ôl i berson ifanc gael ei ryddhau, yn ogystal â meithrin gwell dealltwriaeth o'r effaith y mae'r ddalfa wedi ei chael ar yr unigolyn hwnnw. Bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid hefyd yn coladu ac yn dadansoddi gwybodaeth y person ifanc, er mwyn llywio gwaith monitro contractau, dysgu a gwelliant yn y sefydliad diogel.

Rydym yn gwerthfawrogi eich cyfraniad at y broses newydd hon, wrth i ni geisio integreiddio llais y person ifanc yn dilyn pob cyfnod mewn sefydliad diogel.

Cyfrinachedd

Bydd canlyniadau'r *Ffurflen Ymadael â'r Ddalffa* yn cael eu coladu mewn arolwg adborth rheolaidd/canfyddiadau thematig. Bydd ffurflenni unigol yn cael eu trin yn ddogfennau cyfrinachol; bydd y wybodaeth a roddir yn llywio gweithgareddau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid, a gall ymddangos mewn cyhoeddiadau sy'n gysylltiedig â chadw pobl ifanc yn ddiogel yn y dyfodol. Os bydd hyn yn digwydd, bydd unrhyw ddata ategol yn cael eu cyflwyno fel casgliad amheronol o safbwyntiau a chanlyniadau.

Dim ond os oes/os bu pryderon am ddiogelwch y caiff unrhyw wybodaeth a roddir yma ei rhannu â gweithwyr proffesiynol eraill mewn ffordd sy'n datgelu manylion y person ifanc.

Cofiwch beidio â chynnwys enwau pobl ifanc wrth gyflwyno ffurflenni i gyfeiriad e-bost adborth y ddalffa. Mae hyn yn torri rheolau Diogelwch Data.

Am ragor o fanylion, gweler:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/419595/Working_Together_to_Safeguard_Children.pdf (Saesneg yn unig)

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/419628/Information_sharing_advice_safeguarding_practitioners.pdf This (Saesneg yn unig)

Llenwi'r ffurflen

- Dylid llenwi'r *Ffurflen Ymadael â'r Ddalfa* gyda phob person ifanc pan gaiff ei ryddhau o'r ddalfa i'r gymuned (yn dilyn remand neu ddedfryd). Mae defnyddwyr cychwynnol yn awgrymu y dylid neilltuo rhyw 30-40 munud i'w llenwi.

Dychwelwch y ffurflen i custodyfeedbackform@yjb.gsi.gov.uk o fewn 10 diwrnod ar ôl i'r unigolyn gael ei ryddhau.

- Mae'n arfer da i gynnwys rhieni/gofalwyr yn holl ddisgwyliadau ymyrraeth person ifanc (yn enwedig wrth egluro amodau'r drwydded/remand pan gaiff ei ryddhau). Fodd bynnag, os caiff y ddogfen hon ei llenwi gyda'r person ifanc yn unig, cofiwch hysbysu'r rhieni am yr holl ganlyniadau, a gofyn am eu barn lle bo gweithdrefnau uwchgyfeirio yn cael eu hystyried.
- Oherwydd natur rhai o'r cwestiynau (sy'n ceisio adolygu cyfraniad y gymuned at y profiad mewn sefydliad diogel), argymhellir bod un o swyddogion y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc, nad yw fel arfer yn goruchwyllo'r person ifanc, yn hwyluso'r broses o llenwi'r ffurflen.
- Os oes gan berson ifanc Anawsterau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, sicrhewch ei fod yn cael cymorth i llenwi'r ffurflen.
- Os yw'r person ifanc wedi cael ei osod mewn mwy nag un sefydliad diogel, dylid ceisio llenwi ffurflen ar gyfer pob sefydliad, er mwyn helpu i greu darlun cynrychioliadol o'r profiadau problematig yn ogystal â'r rhai cadarnhaol. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn ymarferol, yna defnyddiwch ddisgresiwn proffesiynol.
- Os bydd y person ifanc yn codi unrhyw bryderon uniongyrchol, sy'n ymwneud ag ymddygiad personél neu bobl ifanc eraill, wrth llenwi'r ffurflen, dylid cyfeirio'r rhain at y Llywodraethwr perthnasol/Rheolwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc cyn gynted â phosibl, neu'n ffurfiol drwy ddilyn y broses gwyno sydd wedi'i hatodi isod. Lle bo cwynion wedi cael eu huwchgyfeirio, byddai'n ddefnyddiol i'r rhain gael eu hamlygu ar y ffurflen, er mwyn helpu i rannu gwybodaeth ac osgoi dyblygu.

Proses Uwchgyfeirio

Yn seiliedig ar ganfyddiadau o'r ddogfen hon, mae'n bosibl y bydd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid bryderon uniongyrchol. Er mwyn sicrhau cyfathrebu clir a chefnogi rolau a chyfrifoldebau sefydliadau diogel ac awdurdodau lleol dynodedig, bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid bob amser yn cysylltu â'r unigolion a'r sefydliadau priodol, fel a ganlyn:

- Pennaeth Busnes a Phennaeth Goruchwylio a Chymorth (Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru) a Monitorau/Uwch ymgynghorwyr y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid.
- y Cartref (dynodedig) a'r Tîm Troseddwy'r Ifanc cyfrifol, fel y bo'n briodol
- y sefydliadau diogel perthnasol
- Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol, fel y bo angen.

Rolau a Chyfrifoldebau

Mae llenwi'r ddogfen hon yn ymwneud yn bennaf â rolau a chyfrifoldebau'r canlynol:

- (1) Rheolwyr achos y ddalffa a rheolwyr achos y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc,
- (2) Monitorau y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel)
- (3) Rheolwyr Contractau/Uwch ymgynghorwyr y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (Cymru)

Fe'i datblygwyd (gyda chymorth nifer o Dimau Troseddwyr Ifanc a phobl ifanc) er mwyn rhoi llais uniongyrchol i'r person ifanc wrth adolygu ei gyfnod yn y ddalffa, sicrhau y gweithredir ar unrhyw ymarfer sy'n peri pryder yn syth, a sicrhau bod profiadau cadarnhaol hefyd yn cael eu casglu er mwyn llywio gwaith monitro perfformiad ehangach mewn perthynas â'r sefydliad diogel i bobl ifanc.

Rheolwr Achos y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc a'r Ddalffa

Rheolwr Achos y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc sy'n gyfrifol am gynllun dedfryd a chynllun ailsefydlu'r person ifanc.¹ Mae cydweithredu â rheolwr achos y sefydliad diogel, yr asiantaethau perthnasol, y person ifanc, yn ogystal â'i rieni/ofalwyr yn hollbwysig i sicrhau diogelwch a lles y person ifanc yn ystod ei ddedfryd, yn ogystal ag ar ôl iddo ddychwelyd i'r gymuned dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc.

<https://www.gov.uk/government/publications/custody-and-resettlement/custody-and-resettlement-section-7-case-management-guidance> (Saesneg yn unig)

¹ Gweler Adran 9 o'r safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuencid – <https://www.gov.uk/government/publications/national-standards-for-youth-justice-services>

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (Monitorau/Rheolwyr Contractau – Rolau Goruchwylio a Chymorth) mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc

Mae Monitorau a Rheolwyr Contractau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn gyfrifol am oruchwylio ac asesu yn erbyn contractau a safonau cysylltiedig ar draws canolfannau hyfforddi diogel/cartrefi diogel i blant neu sefydliadau troseddwyr ifanc.

Amcanion Monitorau/Rheolwyr/Uwch Ymgynghorwyr yw:

- Casglu data a gwybodaeth a monitro perfformiad priod ddarparwyr drwy nodi meysydd sy'n peri risg ac ymarfer effeithiol trwy weithgareddau wedi'u targedu, gan hysbysu cydweithwyr llywodraethu mewnol a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.
- Cydymffurfio â'r system rheoli ansawdd er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni mewn ffordd gyson ac archwiliadwy.
- Meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol a gweithio mewn partneriaeth â darparwyr, cydweithwyr yn y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a rhanddeiliaid allweddol (Swyddfa'r Comisiynydd Plant, y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi yn Lloegr), a chynnal perthnasoedd strategol â chyd-gomisiynwyr (DOH, DFE yn Lloegr) er mwyn sicrhau bod unrhyw feysydd sy'n peri pryder neu berfformiad gwael yn cael eu nodi a'u huwchgwyfeirio. Yng Nghymru, Comisiynydd Plant Cymru, Estyn, AGGCC, AGIC a Llywodraeth Cymru.
- Mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, mae Monitorau yn arfer rhai pwerau statudol ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae ganddynt hefyd fyrdau monitro annibynnol sy'n ymdrin â phryderon a chwynion pobl ifanc.
- Cyfrannu at wybodaeth a datblygiad strategol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid drwy gymryd rhan mewn prosiectau a rhaglenni perthnasol, fel y dangosir yng nghynllun corfforaethol y sefydliad.

Proses Gwyno Timau Troseddwyr Ifanc

Dylid ymdrin ag unrhyw bryderon/faterion yn syth, ar y cyd â'r sefydliad diogel ac yn unol â'r gweithdrefnau lleol priodol, sydd wedi'u hatodi.

Os bydd unrhyw bryderon pellach ar ôl i'r ffurflen gael ei llenwi, eir ar drywydd hyn yn y lle cyntaf gan:-

Ar gyfer Monitorau a Rheolwyr Chontractau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, y llwybr cychwynnol fyddai drwy Dîm Busnes Lleol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid neu Bennaeth Goruchwylio a Chymorth Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, a all eich cyfeirio at yr unigolyn cywir.

Neu, gallwch ffonio llinell ganolog y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar **020 3334 5300/Sefydliadau Diogel**

Gweler isod y prosesau Cwyno ar gyfer Sefydliadau Diogel:

AR GYFER SEFYDLIADAU TROSEDDWYR IFANC:

<https://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2012/psi-02-2012-prisoner-complaints.doc> (Saesneg yn unig)

AR GYFER CANOLFANNAU HYFFORDDI DIOGEL/CARTREFI DIOGEL I BLANT

<http://www.g4s.com/en-GB/What%20we%20do/Services/Care%20and%20justice%20services/Childrens%20services/> (Saesneg yn unig)

<http://www.mtcnovo.co.uk/contact-us/> (Saesneg yn unig)

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y ddogfen hon, anfonwch e-bost i: custodyfeedbackform@yjb.gsi.gov.uk neu natasha.richards@yjb.gsi.gov.uk